

### Rhoi Sylw i Addysgu Cynhwysol

#### Sut mae Gwahaniaethau Dysgu Penodol yn effeithio ar astudio?

"Mae gynnoch chi syniadau yn union fel arlunydd, dach chi'n gwybod yn union pa liwiau dach chi eisiau eu defnyddio ... ond pan mae angen eu rhoi nhw ar bapur, mae'n fater hollol

"Be dwi'n sylwi weithiau ydy nad ydw i'n canolbwyntio ar be dwi'n ei ddweud ac wrth siarad dwi'n drysu trefn be dwi'n ei ddweud"

Bydd effaith Gwahaniaethau Dysgu Penodol yn amrywio o berson i berson ac yn dibynnu ar ystod o ffactorau megis faint o amser sydd ers y diagnosis, yr ystod o strategaethau sydd eisoes wedi'u datblygu a'r cymorth sydd ar gael. Mae'n bwysig nodi y gallai fod adegau pan fydd Gwahaniaeth Dysgu Penodol yn dod yn fwy amlwg a gall hyn effeithio mwy ar berfformiad myfyriwr, er enghraifft, mewn cyd-destunau gwahanol, ar wahanol adegau, ac o dan bwysau gwahanol.

- **Darllen:** gall effeithio ar gywirdeb, cyflymder, derbyn gwybodaeth yn gyflym a dealltwriaeth. Gall darllen yn uchel beri gofid.
- **Llawysgrifen:** Cyflymder ac eglurder llawysgrifen - efallai y bydd diffyg o ran pa mor rhwydd a rheolaidd yw'r llawysgrifen.
- **Sillafu:** ar y gorau efallai y byddwch yn 'ansicr'.
- **Gramadeg ac atalnodi, y gallu i sylwi ar gangymeriadau.**
- **Cynllunio, trefnu, strwythuro a rhoi trefn ar syniadau ysgrifenedig.**
- **Cymryd nodiadau:** mae'n bosib y bydd gwrando ac ysgrifennu ar yr un pryd yn amhosibl.
- **Cyfyngiadau o ran cof tymor byr:** yn effeithio ar eich gallu i gofio cyfarwyddiadau, darllen a gwaith ysgrifenedig.
- **Trefniadaeth gyffredinol a rheoli amser.**
- **Gweithio ar leoliad:** darllen a chymryd nodiadau yn gyflym; ysgrifennu cofnodion ac adroddiadau'n gywir, llenwi ffurflenni, gwneud sawl peth ar unwaith.

# Cefnogi ac addysgu myfyrwyr â Gwahaniaethau Dysgu Penodol

## Goruchwyliaeth

- Rhoi arweiniad gyda rhestrau darllen a / neu dasgau darllen dan gyfarwyddyd.
- Rhoi digon o amser i gymhathu gwybodaeth a pharatoi atebion i gwestiynau llafar.
- Defnyddio iaith gryno, eglur a chlr a thorri gwybodaeth yn ddarnau llai os yw manylion y dasg yn hir.
- Darparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig os oes angen.
- Darparu enghreifftiau a modelau o'r gwaith / aseiniadau y bydd disgwyl i chi eu gwneud.

## Darlithoedd

- Defnyddio Panopto pan fo modd neu ddefnyddio fformat arall ar gyfer lledaenu'r wybodaeth.
- Darparu copïau o gyflwyniadau PowerPoint neu unrhyw daflenni, nodiadau darlith, dogfennau trafod, pynciau / nodiadau seminar ymlaen llaw mewn fformat electronig / Blackboard.
- Darparu cyflwyniadau PowerPoint ar gefndir lliw pastel lle bo modd.
- Rhifo sleidiau PowerPoint i gynorthwyo wrth gyfeirio atynt wrth gymryd nodiadau.
- Darparu crynodeb ar ddechrau darlith a chyfeirio yn effeithiol trwy gydol y ddarlith. Ar ddiwedd pob darlith, adolygu'r prif bwyntiau.
- Darparu geirfa sy'n cynnwys y termau allweddol.

## Lleoliadau Gwaith

- Sicrhau cyswllt da wrth baratoi - llunio cynllun ar gyfer y lleoliad ar y dechrau gyda'r myfyriwr gan amlygu gwybodaeth a dyddiadau pwysig.
- Rhoi cyfarwyddiadau a gosod disgwyliaid clir a gwirio dealltwriaeth.
- Rhoi cyfarwyddiadau llafar ac ysgrifenedig lle bynnag y bo modd.
- Adnabod a thrafod pryderon / adegau posibl o straen.
- Cymryd sylw o'r arddull dysgu unigol.
- Lle bo hynny'n bosibl, rheoli llwyth gwaith ac osgoi pwysau amser.
- Darparu map o'r adeilad.

## Gwaith maes ac astudio dramor

- Rhoi gwybodaeth glir ymlaen llaw am waith maes ac astudiaethau blwyddyn dramor i alluogi'r myfyriwr i ymgyswrtio ymlaen llaw.

## Marcio

- Cyfeirio at y canllawiau ar gyfer marcio a rhoi adborth i fyfyrwyr â Gwahaniaethau Dysgu Penodol yn:  
[https://www.bangor.ac.uk/student-services/disability/documents/Awst\\_17\\_Marking\\_Guidelines\\_Cymraeg.pdf](https://www.bangor.ac.uk/student-services/disability/documents/Awst_17_Marking_Guidelines_Cymraeg.pdf)
- Nodwch mewn asesiadau llafar fod gan rai myfyrwyr anawsterau penodol sy'n effeithio ar eu gallu i ganfod geiriau ac ar lif y cyflwyniad ac ynganiad.